Roy Castle 1932–1994

Diddanwr, seren teledu a chefnogwr elusennau

Ganwyd Roy Castle ar 31 Awst 1932 yn Holmfirth, West Riding, Swydd Efrog, yn unig blentyn i Hubert ac Eliza Castle. Roedd ei dad yn gweithio fel asiant i gwmni yswiriant. Symudodd y teulu i bentref Scholes ger Huddersfield ac aeth Roy i ysgol ramadeg Honley. Dangosodd ddiddordeb pan oedd yn ifanc mewn cerddoriaeth ac fe gafodd wersi canu a dawnsio tap. Pan oedd yn ddeuddeg oed trefnodd ei fam iddo ymddangos mewn sioe leol o ddoniau sef *Youth on Parade* a gynhelid yn ystod yr haf gan Mildred Crossley a'i gŵr Norman Teal.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1946, gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed er mwyn teithio gyda Crossley a Teal yn eu cynhyrchiad *Happiness Ahead*. Bu'n rhaid iddo ymuno gyda'r fyddin ym 1950 i wneud gwasanaeth cenedlaethol am ddwy flynedd. Wedi iddo orffen yn y fyddin ymunodd gyda phantomeim fel cath Dick Whittington. Bu am gyfnod byr fel trwmpedwr gyda'r Norman Teal Trio cyn mentro ar yrfa fel canwr-dawnsiwr-cerddor, a hefyd fel cocyn hitio i gomedïwr o ogledd Lloegr o'r enw Jimmy James.

Mae'n debyg mai 1958 oedd y flwyddyn bwysicaf yn ei hanes. Y flwyddyn honno fe'i dewiswyd gan yr impresario Val Parnell i ymddangos yn *New Look*, rhaglen ar sianel deledu ATV oedd yn llwyfan i ddoniau newydd. Oherwydd iddo wneud cymaint o argraff ar weithredwyr y cwmni teledu cafodd ei gynnwys i berfformio yn y *Royal Command Performance* y flwyddyn honno. Yn dilyn y digwyddiad hwnnw cafodd adolygiadau yn y wasg oedd yn ei ganmol i'r cymylau. O ganlyniad aeth ar lyfrau'r asiantau theatrig dylanwadol Lew a Leslie Grade. Roedd yn berson amryddawn iawn a galluogodd hyn ef i wneud llawer o bethau yn ystod ei yrfa. Bu'n teithio clybiau a theatrau 'variety' am flynyddoedd cyn cychwyn ar yrfa deledu lwyddiannus.

Cafodd ei gyfres ei hun, *The Roy Castle Show* (1965) ac actiodd mewn tair ffilm, sef *Dr Terror's House of Horrors* (1965), *Doctor Who and the Daleks* (1965) a *Carry on up the Khyber* (1968).

Ym 1972 dechreuodd gyflwyno'r rhaglen boblogaidd *Record Breakers* ar y BBC – yn seiliedig ar y *Guinness Book of Records* – a pharhaodd i wneud hynny am ddwy flynedd ar hugain. Sefydlodd ddwy record byd ei hun sef tapio miliwn o weithiau mewn 23 awr a 44 munud (1985) a theithio y tu allan i awyren am 3 awr a 23 munud wrth hedfan o Gatwick i Paris (1990). Roedd ganddo hefyd gyfres o raglenni ar BBC Radio 2 o 1974 hyd 1983, sef *Castle's in the Air*.

Roedd Roy Castle yn Gristion o argyhoeddiad a chyhoeddodd albwm o ganeuon Cristnogol ar arddull *jazz* gyda'i fab Ben sef *Big Celebration*. Ym 1992 canfuwyd bod ganddo ganser ar yr ysgyfaint ac aeth ati i dynnu sylw at beryglon ysmygu – er nad oedd ef erioed wedi ysmygu – a chynorthwyo apêl i godi £12 miliwn tuag at ymchwil cancr. Bu farw ar 2 Medi 1994 yn Gerrards Cross, Swydd Buckingham, Lloegr.